



## Neges gan y Crynwyr ar gyfer Etholiadau Cynulliad Cymru 2016

Fel Crynwyr fe'n gorfodir gan ein ffydd, ac wrth roi'r ffydd honno ar waith, i gymryd cyfrifoldeb am lywodraeth ein gwlad. Ni allwn dderbyn pethau'n gibddall fel y maent ond rydym yn cwestiynu a chadw yn effro i'r ffordd y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a'u gweithredu.

Felly, rydym yn annog ein gwleidyddion i ymateb i broblemau cyfiawnder, dioddefaint, gormes ac anwybodaeth, lle maent yn bodoli, er mwyn ceisio cymdeithas sy'n fwy heddychlon a chyfartal. Rydym yn eu herio i gael gwared â'r agweddau dinistriol hynny sy'n ein celu rhag ein gilydd; dylai cydymdeimlad lifo '*fel dyfroedd, a chyfiawnder fel ffrwd gref.*' (Amos: 5.24)

Rydym yn sylweddoli, fodd bynnag, efallai ein bod ni, a'r rheini mewn cymunedau ffydd eraill a chymunedau heb ffydd, yn cyfrannu i'r problemau sy'n ein herio. Ni ddylem gael ein twyllo i feddwl nad oes gennym rôl yn y broses wleidyddol. Mae angen i ni barhau'n wylidwrus o ran beth rydym yn ei wneud ein hunain a beth rydym yn ei ofyn gan bobl eraill.

I'r rheini sydd yn awr yn ceisio cael eu hethol i Gynulliad Cymru eleni, byddem yn gofyn iddynt gynnal a hyrwyddo:

- atebion pragmataidd, ymarferol y gellir eu cyflawni i faterion a phroblemau sydd wedi'u seilio ar ymchwil gadarn ac nid ar orchmynion ideolegol gor-syml a all gymylu dyfarniad dyngarol a chytbwys.
- bod yn agored, yn onest ac yn dryloyw yn eu trafodion, gan annog cydweithrediad a dealltwriaeth lle ceir gelyniaeth a bod yn barod i gyfaddef methiannau pan ddaw'r rhain yn amlwg. Gwasanaeth i'r gymuned yw grym ac nid rhywbeth i'w ddilyn erddo'i hun.
- gwerth cymdeithas amrywiol i bawb yng Nghymru sydd wedi'i chyfoethogi ac sy'n dal i gael ei chyfoethogi gan ddiwylliannau, credoau ac ieithoedd eraill.
- gwarchod a chadw'r hyn sy'n unigryw i Gymru ac sy'n rhoi i ni ein hunaniaeth.
- cadernid cymunedol a all fod yn offeryn sy'n trawsnewid. Cydnabod yr adnodd a geir mewn pobl, yn eu cryfderau a'u galluoedd i fod yn eiriolwyr ac adnabod atebion i faterion a phroblemau.
- polisïau economaidd sy'n sicrhau bod pawb yn elwa gan sicrhau ar yr un pryd gynaliadwyedd bywyd ar ei holl ffurfiau. Nid yw adnoddau'r byd yn ddiderfyn, nac i ni eu gwastraffu a'u gwaredu'n fyrbyyll.

- system addysg sy'n ymatebol ac yn ddychmygus. Un sy'n ysgogi ac yn cyfoethogi gwerth pob plentyn a pherson ifanc gan gadw elfen o ddewis sy'n cydbwysu anghenion cymunedol â rhai'r unigolyn.
- darparu tai digonol fel mai lle diogel a meithrinfa go iawn yw pob cartref. Rhaid i bobl allu cyrchu gwasanaethau i'w cynorthwyo a'u cefnogi pan fydd eu hangen.
- gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol hygyrch sy'n tynnu ar werthoedd a mewnbynnau proffesiynol wrth aros yn sensitif i bryder y cyhoedd pan fydd newidiadau, sy'n anochel, yn achosi ansicrwydd ac anesmwythyd.

Sefydliad amhrisiadwy yw Cynulliad Cymru. Hyd yn hyn, yn aml, ac mewn ysbryd cyfeillgar, mae wedi cael hyd i ffordd o ddelio â phroblemau brys, wedi'u hetifeddu o'r gorffennol, gan gydnabod y bydd gwahaniaethau ynglŷn â'r ffordd orau o ddatrys y rhain. Mae wedi bod yn arloesol ac yn ymatebol. Dyma nodweddion hanfodol o'r Cynulliad y dylai'r rheini sy'n ceisio am swydd yn 2016 eu hanwylu a'u hyrwyddo.

=====

*“Yr ydym i gyd yn dlotach yn sgil sathru un person gan fod pylu'r Goleuni unrhyw le'n ein tywyllu ni i gyd.” Michael Sorenson*

<http://quakersinwales.org.uk>      <http://crynwyrcymru.org.uk>

[admin@quakersinwales.org.uk](mailto:admin@quakersinwales.org.uk)